

Cynigion i'w trafod yng Nghyfarfod Cyffredinol Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 2018 (tudalen 1)

Prentisiaethau

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i neilltuo £10m o'r gyllideb o £111.5M yn 2018-19 i brentisiaethau cyfrwng Cymraeg, a chynyddu hynny i £20M dros y 3 mlynedd nesaf.
2. Yn ychwanegol i hyn, yn galw ar y Llywodraeth i lunio strategaeth a fydd yn cynnwys datblygu'r rhaglen hyfforddiant i'r gweithlu, sefydlu tîm o aseswyr a sicrhau bod asiantaethau sy'n darparu cyrsiau ac sy'n dyfarnu yn gallu cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Cynigydd: Grŵp Addysg

Sefyll yn erbyn hiliaeth

Yn cynnig bod y cyfarfod cyffredinol yn:

1. Nodi twf yr adain dde eithafol ar draws y byd, y cynnydd mewn troseddau casineb ar sail hil a normaleiddio sylwadau rhagfarnllyd ym mywyd cyhoeddus
2. Nodi er bod y Gymraeg yn iaith i bawb yng Nghymru, mae cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig yn tueddu cael eu cau allan o'r Gymraeg yn ein system addysg a bod rhaid i hyn newid
3. Yn cymeradwyo safiad Cymdeithas yr Iaith i beidio ag ymwneud ag Ukip oherwydd eu safbwyntiau rhagfarnllyd, ac yn galw eto ar eraill ym mywyd cyhoeddus Cymru i wneud yr un safiad
4. Yn gwrthod yr alwad gan rai ar ymgyrchwyr dros y Gymraeg a Chymru i beidio ag ymgyrchu ar faterion sy'n effeithio ar grwpiau dan ormes, a'r honiad bod y materion yma'n rhai 'ymylol'
5. Yn datgan bod Cymdeithas yr Iaith yn sefyll yn erbyn pob math o hiliaeth, a bod y frwydr dros gyfiawnder i'r Gymraeg ynghlwm â'r frwydr dros gyfiawnder hil, dadgoloneiddio a chyfiawnder i bob grŵp sy'n profi gormes
6. Yn galw ar sefydliadau cyhoeddus Cymru i wneud mwy i fynd i'r afael â hiliaeth a than-gynrychiolaeth cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig yn ein bywyd cyhoeddus
7. Yn galw ar Senedd y Gymdeithas, ein grwpiau ymgyrchu, celloedd a rhanbarthau, a'n holl aelodau, i gymryd agwedd rhagweithiol tuag at herio hiliaeth a chymryd cyfleoedd i gyd-sefyll â chymunedau du a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru

Cynigydd: Rhanbarth Morgannwg Gwent

Gwelliant gan Senedd y Gymdeithas

Ychwaneger i 5. "ac yn datgan bod gan y Gymdeithas gyfrifoldeb dros egluro'r cysylltiad rhwng y Gymraeg a mathau arall o ormes"

Gwrthwynebu Rhanbarthau Dinesig ac Arfor

Credwn fod y cysyniad o Rhanbarthau Dinesig yn milwrio yn erbyn holl ymdrechion y Gymdeithas i ymgyrchu o blaid grymuso a datganoli grym i gymunedau dros y degawdau diwethaf.

Gwelwn y cysyniad o Arfor yn deillio o'r feddylfryd o ganoli sydd yn sylfaen i'r holl gysyniad o ranbarthau dinesig.

Credwn y bydd Arfor yn:

- i) lleihau democratiaeth ac atebolrwydd awdurdodau at eu cymunedau lle credwn ni mewn datganoli grym i gymunedau.
- ii) cynyddu'r cysyniad o neo-rhyddfrydiaeth a chystadlu rhwng rhanbarthau sydd yn ei dro yn arwain at gefnogaeth i brosiectau enfawr yn hytrach na mentrau cymunedol a chydweithredol.
- iii) tanseilio'r cysyniad o Gymreictod trwy rannu Cymru ar sail iaith. Nid oes rhaid sefydlu Arfor i ddwyn pwysau ar Awdurdodau Lleol i weinyddu'n Gymraeg, a galwn ar Gymdeithas i barhau i ymgyrchu dros weinyddu a darparu gwasanaethau Cymraeg drwy Gymru gyfan.

Galwn ar y Cyfarfod Cyffredinol i barhau i ymgyrchu dros ddatganoli grym a chryfhau ein cymunedau.

Cynigydd: Rhanbarth Gwynedd a Môn

Gwelliant gan grŵp Cymunedau Cynaliadwy'r Gymdeithas

Newid "Credwn" i "Pwysleisiwn eto" yn y frawddeg gyntaf.

Dileu gweddill y cynnig, ac eithrio'r frawddeg olaf, a mewniodd:

Pryderwn fod sefydliadau rhanbarthol yn cipio grymoedd cyngorau sir Cymru, ac yn disodli democratiaeth leol. Dylai Llywodraeth Cymru roi terfyn ar y datblygiadau annemocrataidd hyn, ac yn hytrach creu trefn sy'n seiliedig ar gydweithio rhwng Awdurdodau Lleol a pharchu ewyllys cymunedau lleol i ddefnyddio'r Gymraeg yn brif gyfrwng addysg a gweinyddiaeth gyhoeddus a sicrhau llwybr fel y gall pob cymuned symud tuag at hyn dros gyfnod o amser.

Serch hynny, os gorfodir yn ymarferol sefydliadau rhanbarthol ar Gymru, mynnwn fod y llywodraeth yn cymryd i ystyriaeth y gofynion ieithyddol ac yn hybu trefnu ar y cyd rhwng siroedd Dyfed, Gwynedd ac Ynys Môn gan sicrhau mai'r Gymraeg yw prif gyfrwng gweinyddiaeth y mentrau hyn a bod nod clir o gynnal a datblygu cymunedau Cymraeg. Cydnabyddwn y byddai angen amser neu drefniadau arbennig i rai ardaloedd megis De Penfro i gydymffurfio â hyn. Byddai angen hefyd sicrhau fod mentrau rhanbarthol mewn mannau eraill o'r wlad hefyd yn diogelu hawliau ieithyddol presennol ac yn cyflwyno strategaethau clir i'w datblygu yn yr ardaloedd o fewn eu gofal.

Felly, os gorfodir yn ymarferol sefydliadau rhanbarthol ar Gymru, byddai'r Gymdeithas yn croesawu cyhoeddiad sefydlu rhanbarth Arfor. Yn benodol, byddem yn croesawu'r modd mae'n cyd-blethu datblygu economaidd a lles y Gymraeg, rhywbeth rydym wedi galw amdano ers blyneddau. Ond, yn hytrach nag yn nod yn ei hun, gwelwn sefydlu Arfor fel cam tuag at y nod o gymunedau Cymraeg cynaliadwy - mae e'n weledigaeth i Gymru gyfan ymuno ag ef ac ymgynghraedd ato, yn hytrach na gweledigaeth ddaearyddol.

Pwysleisiwn fod angen cyd-blethu datblygu economaidd gydag hyrwyddo'r iaith ymhob rhan o Gymru, a bod angen gweledigaeth a pholisi Cymru-gyfan i gyd-fynd â pholisi Arfor, gyda'r nod o symud pob cymuned ar hyd y llwybr ieithyddol. Pwysleisiwn nad yw cyllid o ddwy filiwn yn ddigonol i gyflawni nod Arfor ac y dylid anelu at fuddsoddiad sy'n gydnaws â faint mae'r Llywodraeth yn bwriadu buddsoddi ar

Cynigion i'w trafod yng Nghyfarfod Cyffredinol Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 2018 (tudalen 3)

fwyhau'r M4 a bargaenion dinesig eraill. Gallai'r prosiect, o'i hariannu'n iawn, fod yn agwedd pwysig iawn o fewn cynllun Cymru gyfan.

Safonau i'r Sector Bancio

Collfarnwn fethiant Llywodraeth Cymru i gyflwyno safonau ac felly hefyd hawliau i wasanaethau Cymraeg gan ddarparwyr cyfleusterau hanfodol megis dŵr, trydan a nwy, trafnidiaeth a thelathrebu.

Collfarnwn ymhellach ymdrechion y Llywodraeth i wanhau hawliau siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol trwy gyflwyno bil newydd a gwannach na Mesur 2011.

Nodwn bod y gallu i fancio drwy'r Gymraeg yn dirywio wrth i ganghennau cau a chwsmeriaid cael ein gorfodi i fancio ar-lein yn Saesneg yn unig. Nodwn bod llawer o'n banciau yn gweithredu yn rhyngwladol ac yn cynnig gwasanaethau bancio ar-lein mewn nifer o ieithoedd i gwsmeriaid mewn gwahanol wledydd. Nodwn ddiffyg cynnydd o ran gwasanaethau Cymraeg yn y sector, er gwaethaf trafodaethau rhwng y banciau a Chomisiynydd y Gymraeg dros nifer o flynyddoedd.

Credwn bod yr amser wedi dod i orfodi ein banciau i gynnig eu gwasanaethau yn Gymraeg drwy ymestyn y system Safonau.

Cynigydd: Grŵp Hawl

Cynrychiolaeth Rhanbarthol

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol bod presenoldeb cynrychiolaeth ranbarthol yn wan yng nghyfarfodydd Cyngor y Gymdeithas

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol bwysigrwydd presenoldeb rhanbarthau yn y cynghorau a phresenoldeb celloedd yn y rhanbarthau.

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol bod gwaith pwysig pellach i'w wneud yn meithrin celloedd ar lawr gwlad.

Geilw'r Cyfarfod cyffredinol ar i Swyddogion Maes wneud gwaith pellach ar hyn ac hefyd i ranbarthau gymryd cyfrifoldeb dros gynorthwyo i sefydlu a datblygu celloedd yn eu rhanbarthau.

Geilw'r Cyfarfod Cyffredinol ar i Gadeirydd y Gymdeithas gysylltu yn bersonol gyda'r rhanbarthau i sicrhau cynrychiolaeth y rhanbarthau yn y Cyngor

Geilw'r Cyfarfod Cyffredinol ar i Gadeirydd y Gymdeithas i ailedrych ar strwythur Senedd/Cyngor eleni gan edrych i ddod â chynnig pellach i'r Cyfarfod Cyffredinol y flwyddyn nesaf.

Cynigydd: Senedd y Gymdeithas

Aelodaeth a chodi arian

Penderfyna'r Cyfarfod Cyffredinol bod angen i 'aelodaeth' a 'codi arian' fod yn eitemau sefydlog ar agenda pob rhanbarth a chell – neges i'w throsglwyddo trwy'r Swyddogion Maes a'r Cadeirydd.

Cynigydd: Senedd y Gymdeithas

Deunydd ar-lein i blant

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol bod dybryd angen deunydd yn Gymraeg ar lein i blant a phobol ifanc. Nodwn hefyd llwyddiant prosiect Sianel 62 y Gymdeithas.

Geilw'r Cyfarfod Cyffredinol ar grŵp Dyfodol Digidol y Gymdeithas i ymchwilio i'r hyn sydd angen, gyda golwg ar sefydlu prosiect i greu a rhyddhau'r deunydd.

Cynigydd: Senedd y Gymdeithas

Cynigion i'w trafod yng Nghyfarfod Cyffredinol Cymdeithas yr Iaith Gymraeg 2018 (tudalen 4)

Cymunedau Byw - Cryfhau Cymunedau

Y cynnig yw bod pob rhanbarth yn gweithredu'n ddwys ar un ardal benodol:

A. Cynnal Gweithdy Diwrnod Cymraeg

Trefnu gweithdy sy'n cynnwys trafodaethau am annog y Gymraeg yn y gymuned. Mae'n hanfodol gweithio mewn partneriaeth i gyflawni hyn ar lefel gymunedol. Bydd posib wedyn cyflawni rhaglen waith i dynnu pobl at ei gilydd er mwyn gweithredu amcanion clir.

B. Trefnu Penwythnos dysgu Cymraeg

Nod y Penwythnosau:

- Denu siaradwyr newydd trwy'r cwrs blasu dwys
- Rhoi cyfle i bobl o fewn cymunedau penodol i drafod dulliau amrywiol i gryfhau eu cymunedau o ran y Gymraeg
- Monitro cynnydd y bobl sy'n mynychu o ran eu mentergarwch a'r defnydd o Gymraeg
- Codi aelodaeth Cymdeithas yr Iaith
- Gweithredu syniadau sydd wedi cael eu trafod yn ystod y penwythnos a ffurfio cell neu grŵp dathlu

Mae'r cynnig yma yn cael ei wneud wrth weld llwyddiant y penwythnosau amgen.

Mae'n dibynnu ar swyddogion maes yn buddsoddi amser o flaen llaw i edrych ar natur benodol yr ardal maen nhw'n ei ddewis.

Cynigydd: Cell Maldwyn

Gwelliant gan Senedd y Gymdeithas

Mewnosoder yn lle'r frawddeg olaf: "Gofynnwn i grŵp Cymunedau Byw arwain ar y gwaith yma, ac i Ranbarthau a swyddogion eraill y Gymdeithas i gefnogi. "